# Comisiwn y Cynulliad

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Llun, 26 Chwefror 2018** |
| Amser: | **12.30 – 14.35** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: AC(5)2018(2)

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Comisiwn: | **Elin Jones AC (Cadeirydd)**<br>**Suzy Davies AC**<br>**Caroline Jones AC**<br>**Joyce Watson AC** |
| Swyddogion yn bresennol: | **Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Cynulliad**<br>**Dave Tosh, Cyfarwyddwr Adnoddau**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Nia Morgan, Cyfarwyddwr Cyllid**<br>**Rebecca Hardwicke, Cymorth Busnes i'r Aelodau**<br>**Sulafa Thomas, Pennaeth y Gwasanaeth Cymorth i'r Comisiwn ac i'r Aelodau**<br>**Rhuanedd Richards, Cynghorwr Polisi i'r Llywydd**<br>**Gwion Evans, Pennaeth Swyddfa Breifat y Llywydd** |
| Eraill yn bresennol: | |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Cyflwyniad ac ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriadau gan Adam Price AC.

1.2 Datganiadau o fuddiant

Ni chafwyd datganiadau o fuddiant.

1.3 Cofnodion o'r cyfarfod blaenorol

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 22 Ionawr.

## 2 Ein hanghenion o ran adeiladau yn y dyfodol

Nododd y Comisiynwyr ddiweddariad am y trafodaethau parhaus ynghylch diwallu anghenion y Cynulliad a'r Comisiwn o ran adeiladau yn y dyfodol.

## 3 Costau cysylltiedig â Swyddfa'r Aelodau a gyllidir yn ganolog gan Gomisiwn y Cynulliad

Trafododd y Comisiynwyr y costau, heblaw'r rhai a ddarperir gan y Penderfyniad, y mae'r Aelodau yn mynd iddynt wrth redeg eu swyddfeydd.

Cytunwyd ar gynigion i adolygu'r ffordd y caiff cyllidebau cysylltiedig â swyddfa eu rheoli dros y tymor byr a'r tymor hir gyda'r bwriad o sicrhau mwy o dryloywder ac atebolrwydd y gwariant ychwanegol hwn yn ymwneud â Swyddfeydd Aelodau.

Cytunodd y Comisiynwyr hefyd ar ymgynghori â'r Aelodau ynghylch cyflwyno camau interim tuag at y dull gweithredu hwn.

## 4 Adroddiad y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar Lobïo - ymateb

Trafododd y Comisiynwyr argymhellion y Pwyllgor Safonau Ymddygiad mewn perthynas â'i ymchwiliad i'r trefniadau ar gyfer tryloywder ynghylch lobïo.

Cytunodd y Comisiynwyr ar ymatebion i'r pedwar argymhelliad, er mwyn ymateb i'r Pwyllgor Safonau.

## 5 Gwaith craffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar gyfrifon 2016-17 - ymateb

Cafodd y Comisiwn y wybodaeth ddiweddaraf am waith craffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Gyfrifon 2016-17, yn enwedig y ddau argymhelliad yn ei adroddiad terfynol yn ymwneud â'r Comisiwn.

Cytunodd y Comisiynwyr ar eu hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

## 6 Adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Gyllideb y Comisiwn 2018-19 - ymateb

Wedi rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Cyllid eisoes, trafododd y Comisiynwyr weddill yr argymhellion a wnaed gan y Pwyllgor yn ei adroddiad ar Gyllideb Ddrafft y Comisiwn ar gyfer 2018-19, yn ymwneud ag adeiladau a'r Adolygiad Capasiti.

Cytunodd y Comisiynwyr ar eu hymateb i adroddiad y Pwyllgor Cyllid.

## 7 Dirprwyo o ran cyfrifoldebau gweithredol

Cytunodd y Comisiynwyr i ddirprwyo'r cyfrifoldeb gweithredol a nodwyd i'r Prif Weithredwr.

## 8 Prisiad actiwaraidd Cynllun Pensiwn Aelodau'r Cynulliad

Gofynnwyd i'r Comisiynwyr roi eu barn ynghylch a ddylid mabwysiadu rhagamcanion poblogaeth diweddaraf Swyddfa Ystadegau Gwladol ar gyfer 2016 i'w defnyddio ym mhrisiad y Cynllun Pensiwn Aelodau. Cytunwyd y dylid.

## 9 Adroddiad ar ddyfarnu contractau – rheoli cyfleusterau

Ymgynghorodd y Prif Weithredwr a'r Clerc â'r Comisiynwyr, yn unol â'r Dirprwyo, ar ddyfarnu'r contract ar gyfer Rheoli Cyfleusterau.

Gwerth elfen gwasanaethau'r contract yw ychydig o dan £2.5 miliwn am bedair blynedd y contract. Fodd bynnag, mae'r contract hwn hefyd yn gyfrwng ar gyfer gweithgarwch cynnal a chadw a phrosiectau gwella ar yr ystâd. Felly, gallai cyfanswm gwerth y contract godi uwchlaw'r trothwy sy'n golygu bod angen cynnal yr ymgynghoriad hwn.

Nododd y Comisiynwyr ganlyniad y broses ar gyfer gwerthuso tendro a chymeradwyodd ddyfarnu'r contract.

## 10 Papurau i'w nodi:

10.1 Y wybodaeth ddiweddaraf am Bwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg y Cynulliad (ACARAC)

Nododd y Comisiynwyr gofnodion cyfarfod ACARAC a gynhaliwyd ar 5 Chwefror 2018.

10.2 Diweddariad y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau

Nododd y Comisiynwyr ddiweddariad mis Chwefror gan y Bwrdd Buddsoddi ac Adnoddau.

## 11 Unrhyw fater arall

Adolygiad Capasiti - Cytunodd y Comisiynwyr ar ragair eu hadroddiad.

Cynnig ynghylch Dippy - Cytunodd y Comisiwn i ffurfioli'r cynnig i drosglwyddo arddangosfa Dippy i safle Parc Cathays yr Amgueddfa Genedlaethol, yn dilyn trafodaethau ag Amgueddfa Bud Natur a chyfarwyddwr cyffredinol Amgueddfa Genedlaethol Cymru.

Ystyriwyd y materion canlynol, a'u cytuno, drwy ohebiaeth yn y cyfnod cyn y cyfarfod hwn:

- Adroddiad terfynol yr adolygiad capasiti
- Cytundeb dangosol ynghylch cyfeiriad y polisi Urddas a Pharch